***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1154 (Cy.71)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *12 Ebrill 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *29 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 32 a 44 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf")(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 29 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, bydd i eiriau neu ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt yn Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002 (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "y Rheoliadau")(**2**) a'r ystyr a roddir i'r geiriau neu'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y Ddeddf.

**Diwygio'r Rheoliadau i ddarparu penderfyniad carlam ar apêl o dan adran 25(1)(a)**

**2.**—(1) Dileer rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau ac yn ei le rhodder—

> "(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i apêl yng Nghymru.
>
> (3) Dim ond i apêl o dan adran 25(1)(a) y mae Rhan VA o'r Rheoliadau hyn yn gymwys.
>
> (4) Mae Rhannau I, VA a VI o'r Rheoliadau hyn yn gymwys i apêl o dan adran 25(1)(a) yng Nghymru; ac, at ddibenion apêl o dan adran 25(1)(a), mae cyfeiriad at "apêl" yn Rhannau I a'r VI o'r Rheoliadau hyn i'w ddarllen fel cyfeiriad at apêl o dan adran 25(1)(a).".

(2) Yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau, ar ôl y diffiniad o—

(a) "yr atebydd", ychwaneger—

(**1**) 2000 p.37.
(**2**) O.S. 2002/1794 (Cy.169), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/142 (Cy.14).

"mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Deddf Cyfathrebu Electronig 2000;"(**3**); a

(b) "apêl", ychwaneger—

"ystyr "apêl o dan adran 25(1)(a)" ("section 25(1)(a) appeal") yw apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf yn erbyn penderfyniad awdurdod perthnasol i beidio â gweithredu yn unol â chais am gyfarwyddyd o dan adran 25(1)(a) o'r Ddeddf;".

**3.** Ar ôl rheoliad 28 o'r Rheoliadau (Hysbysu'r penderfyniad), mewnosoder—

## "RHAN VA

## APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD PERTHNASOL I BEIDIO Â GWEITHREDU YN UNOL Â CHAIS AM GYFARWYDDYD O DAN ADRAN 25(1)(a) O'R DDEDDF

**28A.** Mae'r Rhan hon yn gymwys i apêl o dan adran 25(1)(a) oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu neu'n mynnu fel arall yn unol â'r Rheoliadau hyn.

**28B.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar y diwrnod y mae'n cael ffurflen apêl wedi'i chwblhau gan yr apelydd (neu ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl hynny os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gael ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith), anfon copi o'r ffurflen honno, ynghyd â manylion am y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu'r apêl, i—

(a) yr awdurdod perthnasol;

(b) yr awdurdod mynediad (os yw'n wahanol i'r awdurdod perthnasol); ac

(c) fforwm mynediad lleol a sefydlwyd o dan adran 94 o'r Ddeddf y mae'r ardal y mae'n gweithredu ynddi yn cynnwys y tir y mae apêl yn ymwneud ag ef,

drwy gyfathrebiad electronig neu drosglwyddiad ffacsimili, ac eithrio, pan nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gydymffurfio â'r gofyniad hwn o fewn yr amser penodedig, rhaid iddo wneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn.

(2) Pan fo awdurdod perthnasol yn cael ffurflen a anfonwyd iddo yn unol â pharagraff (1), rhaid iddo nodi ei ddatganiad o achos a'i anfon (neu, os drwy gwblhau'r rhan berthnasol o'r ffurflen y nodwyd y datganiad o achos, anfon y ffurflen wedi'i chwblhau), i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfathrebiad electronig neu drosglwyddiad ffacsimili erbyn diwedd yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y daeth y ffurflen i law'r awdurdod perthnasol.

**Trefnu gwrandawiad a hysbysu ohono**

**28C.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod y mae'n cael datganiad o achos yr awdurdod perthnasol yn unol â rheoliad 28B(2) neu, pan nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn—

(a) gwneud trefniadau priodol i gynnal gwrandawiad;

(b) hysbysu'r apelydd a'r awdurdod perthnasol o ddyddiad, amser a lle'r gwrandawiad drwy alwad ffôn, cyfathrebiad electronig, neges ffacsimili neu bost dosbarth cyntaf; ac

(**3**) 2000 p.7.

(c) sicrhau, ac eithrio os nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, fod yr wybodaeth y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (b), ynghyd â chopi o'r ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau (a datganiad o achos yr awdurdod perthnasol, os yw'n ddogfen ar wahân), ar gael i'w harchwilio ar wefan a gynhelir gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu.

**Bod yn bresennol mewn gwrandawiad a chymryd rhan ynddo**

**28D.**—(1) Y personau sydd â hawl i gymryd rhan yn y gwrandawiad yw'r apelydd a'r awdurdod perthnasol.

(2) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol yn y gwrandawiad, neu gymryd rhan ynddo.

(3) Caiff unrhyw berson a chanddo hawl neu ganiatâd i fod yn bresennol yn y gwrandawiad, neu i gymryd rhan ynddo, wneud hynny'n bersonol neu gael unrhyw berson arall i'w gynrychioli.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiad**

**28E.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn, y person penodedig fydd yn penderfynu'r weithdrefn mewn gwrandawiad.

(2) Mae gwrandawiad i fod ar ffurf trafodaeth sy'n cael ei harwain gan y person penodedig ac ni chaniateir croesholi oni fydd y person penodedig yn barnu ei fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau archwiliad trylwyr o'r prif bynciau.

(3) Ar ddechrau'r gwrandawiad, rhaid i'r person penodedig, ar ôl iddo gyhoeddi enw'r person penodedig a'r ffaith bod y person penodedig wedi'i benodi, ac ar ôl iddo ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol lofnodi'r ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau (a'i datganiad o achos, os yw'n ddogfen ar wahân) nodi beth, ym marn y person penodedig, yw'r prif bynciau sydd i'w hystyried yn y gwrandawiad ac unrhyw faterion y mae ar y person penodedig angen cael esboniad pellach arnynt oddi wrth unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad; ond ni fydd hyn yn atal pynciau eraill rhag cael eu hychwanegu i'w hystyried yn ystod y gwrandawiad nac yn atal unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad rhag cyfeirio at bynciau y mae'r person hwnnw yn barnu eu bod yn berthnasol i'r broses o ystyried yr apêl ond nad oeddent yn bynciau a nodwyd fel y cyfryw gan y person penodedig.

(4) Bydd gan yr apelydd a'r awdurdod perthnasol hawl i roi tystiolaeth lafar, neu i alw person arall i'w rhoi; a chaiff unrhyw berson arall roi, neu alw person arall i roi, tystiolaeth lafar os caniateir iddo wneud hynny gan berson penodedig yn ôl disgresiwn y person penodedig.

(5) Er gwaethaf unrhyw hawl neu ganiatâd o'r fath a bennir ym mharagraff (4), caiff y person penodedig, ar unrhyw bryd yn ystod y trafodion wrthod caniatáu i berson roi tystiolaeth neu gyflwyno unrhyw fater arall y mae'r person penodedig yn barnu ei bod neu ei fod yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(6) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu i dystiolaeth lafar gael ei rhoi, caiff y person sy'n dymuno rhoi tystiolaeth, neu alw unrhyw berson arall i'w rhoi, gyflwyno i'r person penodedig unrhyw dystiolaeth neu fater arall yn ysgrifenedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(7) Caiff y person penodedig ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n bresennol yn y gwrandawiad, neu sy'n cymryd rhan ynddo, ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael â'r gwrandawiad; a chaiff y person penodedig wrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd neu ddim ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan yr amodau a bennir gan y person penodedig, ond caiff unrhyw berson